# Y Llwyfan Modelu Integredig (IMP)

Mae'r IMP yn fodel cyfrifiadurol, cydgyllido gan y Llywdoraeth Cymru a Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU, i gefnogi datblygiad polisïau newydd sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol, defnydd tir ac amaethyddiaeth drwy efelychu effeithiau polisïau a ffactorau allanol ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol yng Nghymru.

# Cyd-destun

Mae'r IMP yn llywio datblygiad polisi drwy ddarparu asesiadau cyflym ac integredig o effeithiau newid polisi neu'r cyd-destun economaidd ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol. Mae wedi ymchwilio i effeithiau cytundebau masnach ymadael â'r UE ar ddefnydd tir, amaethyddiaeth a nwyddau cyhoeddus ac mae'n cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o ddatblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU

## Mae'r IMP yn Efelychu...

**Asesiad cyfalaf naturiol,** y prisiad ariannol ar gyfer newidiadau mewn carbon/nwyon tŷ gwydr, ansawdd dŵr ac ansawdd aer

**Effeithiau amaethyddiaeth** ar wasanaethau ecosystem yn seiliedig ar ddefnydd a rheolaeth tir, yr hinsawdd a gyrwyr eraill, e.e. allyriadau nwyon tŷ gwydr o dda byw

**Gwneud newidiadau rheoli ffermydd** tymor byr wedi'u optimeiddio yn seiliedig ar wneud elw cyfyngedig neu amcanion lluosog wedi'u pwysoli ar gyfer mathau cyfredol o ffermydd

**Newidiadau amaethyddol hirdymor** drwy gymharu proffidioldeb mathau eraill o ffermydd a'r cyfyngiadau ar gyfer newid

**Newidiadau i ansawdd dŵr** yn seiliedig ar golledion gwaddodion a llygryddion amaethyddol

**Newidiadau i ansawdd aer** a'u heffaith ddilynol ar iechyd yn seiliedig ar newidiadau mewn allyriadau llygryddion aer a'u defnydd gan goed, sy'n deillio o newid defnydd tir

**Newidiadau mewn helaethrwydd rhywogaethau adar** a phlanhigion yn seiliedig ar ddefnydd a rheolaeth tir, hinsawdd a gyrwyr eraill

**Newidiadau mewn cynhyrchu** pren coedwig, economeg a chyfrifyddu carbon ar gyfer amrywiol fathau o goedwigoedd, yn ôl addasrwydd rhywogaethau coed, rheoli coedwigoedd ac amodau'r safle



OGL© Hawlfraint y Goron 2021 WG43339 Llywodraeth Cymru